

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Rowlands,
Trefynwy

Dyddiad yr arolygiad: 23 Mawrth 2023

Dyddiad cyhoeddi: 10 Gorffennaf 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	▪ Ansawdd Profiad y Claf	8
	▪ Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	11
	▪ Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
4.	Y camau nesaf	18
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	19
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	20
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	21

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Rowlands, Trefynwy ar 23 Mawrth 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Practis Deintyddol Rowlands yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Gwelsom dystiolaeth o arolygon cleifion yn cael eu dosbarthu i gleifion ar ôl eu triniaeth ac roedd yr holl ymatebion a welwyd yn gadarnhaol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau da ar waith ar gyfer cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion.
- Roedd gwybodaeth ar gael i'r cleifion yn yr ardal aros, megis taflenni gwybodaeth i gleifion a gweithdrefn gwyno'r practis.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod yr adeilad mewn cyflwr da, y tu mewn a'r tu allan, a'i fod yn cael ei gadw'n lân ac yn daclus.

Gwelsom dystiolaeth fod asesiad risg diogelwch tân cyfredol ar waith; fodd bynnag, gwnaethom ofyn i reolwr y practis ddiweddar ei hyfforddiant diogelwch tân cyn gynted â phosibl. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y cleifion hefyd. Roedd pob un ohonynt wedi'i gynnal i safon dda, ond dylid cael cydsyniad y cleifion a'i gofnodi ym mhob apwyntiad, yn ogystal â gwirio hanes meddygol.

Ar adeg ein harolygiad, roedd Practis Deintyddol Rowlands a phractis deintyddol arall yn gweithredu yn yr un adeilad. Felly, ymhlith rhai o'r gwelliannau angenrheidiol oedd cyfrifoldeb y ddau bractis.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen i reolwr y practis fynd ar gwrs hyfforddiant diogelwch tân cyn gynted â phosibl, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â hyfforddiant gorfodol.
- Rhaid i'r staff sicrhau y ceir cydsyniad y cleifion a'i gofnodi ym mhob apwyntiad, yn ogystal â gwirio hanes meddygol
- Mae angen tystiolaeth arnom fod y peiriant golchi'n cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-04 a bod y cwmni cyfleustodau yn ymwybodol o'r defnydd ohono.
- Rhaid i'r staff drefnu bod yr awtoclaf yn cael ei gynnal a'i gadw, er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio'n iawn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y ddeintyddfa yn lân, yn cynnwys cyfarpar addas ac yn addas at y diben. Roedd y cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.
- Roedd gan y practis bolisiau a gweithdrefnau ar waith. Roedd pob un yn gyfredol ac roeddent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod arweinyddiaeth dda iawn a llinellau atebolrwydd clir ar waith ym Mhractis Deintyddol Rowlands.

Roedd cyfleoedd hyfforddiant priodol ar gael i'r staff.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r staff sicrhau y caiff yr holl bolisiau eu diweddarau i sicrhau eu bod ond yn cyfeirio at Bractis Deintyddol Rowlands.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr holl staff i'w gweld yn ymroddedig i'w rolau
- Roedd gwiriadau manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar waith ar gyfer yr holl staff.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Cadw'n iach

Diogelu a Gwella Iechyd

Gwelsom fod mesurau ar waith o hyd i ddiogelu yn erbyn lledaeniad COVID-19. Gwelsom fod y cleifion a'r staff (clinigol ac anghlinigol) yn gwisgo gorchuddion wyneb. Rhoddodd y staff wybod i ni hefyd eu bod yn cysylltu â'r cleifion cyn eu hapwyntiad i wirio am unrhyw symptomau COVID-19 neu afiechydon anadlol. Holodd y staff hefyd ynghylch iechyd y cleifion ar ddiwrnod eu hapwyntiad a chofnodwyd gwybodaeth berthnasol mewn cofnodion hanes meddygol.

Cafodd enw'r practis ei ddangos yn glir ar y tu allan i'r adeilad, yn ogystal ag oriau agor y practis a'r rhifau cysylltu mewn argyfwng a'r tu allan i oriau.

Gofal ag urddas

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ymrwymedig i gynnal preifatrwydd y cleifion. Dim ond un ddeintyddfa oedd gan y practis a gwelsom y drws yn cael ei gadw ar gau yn ystod pob apwyntiad. Roedd desg y dderbynfa yn ardal aros y practis, sy'n golygu y gallai sgysiau rhwng y staff a'r cleifion gael eu clywed. Fodd bynnag, dywedodd rheolwr y practis wrthym eu bod yn mynd â chleifion i ardal y staff neu'r ddeintyddfa os byddant yn dymuno siarad yn breifat.

Rhoddodd y staff wybod i ni nad oes cleifion yn mynychu'r practis ar hyn o bryd sy'n dymuno sgwrsio yn y Gymraeg. Oherwydd lleoliad y practis, dywedwyd wrthym mai ychydig o gleifion y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod wedi bod yn defnyddio ap cyfieithu ar y ffôn wrth drin cleifion nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.

Gwelwyd bod y 9 Egwyddor, fel y'u nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yn cael eu harddangos yn glir yn ardal aros y practis.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd gwybodaeth gyffredinol am Bractis Deintyddol Rowlands ar gael yn yr ardal aros. Roedd y wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos yn cynnwys rhestr o gostau a thaflen wybodaeth i gleifion. Cadarnhaodd adolygiad o'r daflen wybodaeth i

gleifion ei bod yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gofal amserol

Mynediad amserol

Dyweddodd staff y dderbynfa wrthym fod pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei roi mewn modd amserol. Dywedwyd wrthym mai anaml iawn yr oedd oedi yn y practis, ond pe byddai oedi, byddai'r staff yn sicrhau bod y cleifion yn cael eu hysbysu ac yn cynnig dewis hefyd iddynt aildrefnu eu hapwyntiad, gydag ymddiheuriadau am yr anghyfleustra.

Dyweddwyd wrthym nad oedd y practis yn defnyddio system trefnu apwyntiadau ar-lein. Gellid cael apwyntiadau dros y ffôn, a gwelsom gleifion hefyd yn trefnu apwyntiadau wyneb yn wyneb â staff y dderbynfa.

Dyweddodd staff y dderbynfa wrthym am y broses ar gyfer trefnu apwyntiadau brys. Staff y dderbynfa oedd yn gyfrifol am drefnu apwyntiadau arferol a brys ar gyfer y ddau bractis deintyddol yn yr adeilad. Roedd gan Bractis Deintyddol Rowlands slotiau dynodedig bob dydd, a gafodd eu cadw ar gyfer apwyntiadau brys. Gallai cleifion ffonio ar y diwrnod i drefnu apwyntiad brys os oedd angen.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth.

Gwnaethom edrych ar y polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol a'r polisi Anabledd sydd ar waith yn y practis. Gwelsom dystiolaeth fod y dogfennau hyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol a'u bod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol i sicrhau bod anghenion unigol pob claf yn cael eu diwallu.

Hawliau pobl

Yn dilyn sgysiau gyda staff, roedd hi'n glir eu bod yn ymwybodol o bwysigrwydd defnyddio rhagenwau a ffefrir y cleifion. Rhoddodd staff y dderbynfa wybod i ni fod nodwedd ar waith ar eu system trefnu apwyntiadau i ddangos y rhagenw yr oedd pob claf yn ei ffafrio, a fyddai'n cael ei amlygu wrth fynd at wybodaeth y claf.

Gan fod y practis wedi'i leoli mewn hen adeilad teras, heb fawr o le, nid yw'n gallu cynnig mynediad llawn i bobl ag anableddau. Roedd yr ystafell drin wedi'i lleoli ar lawr cyntaf y practis ac nid oedd lifft ar gael. Rhoddodd rheolwr y practis wybod i ni y caiff unrhyw unigolion sy'n chwilio am driniaeth ac y mae angen mynediad i bobl anabl arnynt eu cyfeirio at bractis cyfagos a allai ddiwallu eu hanghenion.

Gwranddo a dysgu o adborth

Roedd y broses gwyno wedi'i harddangos yn yr ardal aros. Roedd y wybodaeth am gwyno yn cynnwys y broses sydd angen ei dilyn, y terfynau amser ar gyfer ymateb, ac enw'r aelod o'r staff sy'n gyfrifol am ymdrin â chwynion. Pan wnaethom gyrraedd y safle, nid oedd y weithdrefn gwyno'n cynnwys manylion AGIC fel ffordd o wneud cwyn. Pan wnaethom sôn am hyn wrth y staff, gwnaethant gynnwys y manylion hyn ar y weithdrefn a oedd yn cael ei harddangos yn yr ystafell aros.

Gwelsom y cofnodlyfr lle y byddai cwynion yn cael eu cofnodi, ond ar adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw gwynion wedi cael eu gwneud.

Rhoddodd y staff gopiau o arolygon cleifion wedi'u cwblhau i ni. Dosbarthwyd y rhain i'r cleifion ar ddiwedd eu triniaeth. Cafodd yr holl arolygon y gwnaethom edrych arnynt adborth cadarnhaol. Yn ogystal, gwelsom flwch awgrymiadau ar ddesg y dderbynfa.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd y cynllun ym Mhractis Deintyddol Rowlands yn addas i ddarparu gwasanaethau deintyddol. Roedd yr ardal aros, desg y dderbynfa, ardal y staff a'r ystafell ddihalogi i gyd yn cael eu rhannu â'r practis arall a oedd yn gweithredu yn yr adeilad. Roedd gan bob practis ei ddeintyddfa ar wahân ei hun ar lawr cyntaf yr adeilad.

Gwelsom fod pob rhan o'r adeilad yn lân ac yn daclus, ar y cyfan. Fodd bynnag, yn ystod ein taith o'r practis, nodwyd gennym fod yr ardal y tu allan i'r toiled yn llawn planhigion a bwcedi mopiau. Roedd y bwcedi mopiau'n peri perygl o faglu i'r staff a'r cleifion a oedd yn defnyddio'r ardal hon. Ar ôl ein hymweliad, rhoddwyd tystiolaeth ffotograffig i ni fod yr ardal hon wedi'i thacluso ac roedd lle dynodedig ar gyfer mopiau wedi'i glustnodi.

Tynnodd ein taith o'r practis sylw at risgiau yn seler yr adeilad hefyd. Roedd cofnodion y cleifion ar gyfer y ddau bractis yn cael eu storio yn y seler, ond roedd rhai o'r rhain yn cael eu storio'n agos at y ddau gywasgydd. Er nad oedd y cofnodion a oedd yn cael eu storio yma yn eiddo i Bractis Deintyddol Rowlands, roedd yr ardal yn cael ei rhannu rhwng y ddau bractis yn yr adeilad. Gwnaethom godi hyn fel risg tân. Yn syth ar ôl ein hymweliad, gwelsom dystiolaeth fod y cofnodion wedi'u symud gan leihau'r risg o dân. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod cypyrddau atal tân wedi'u harchebu i storio cofnodion papur wrth symud ymlaen.

Er bod y mwyafrif o'r practis mewn cyflwr da, gwelsom fod y drws cefn, a oedd yn arwain at y storfa wastraff, ond yn agor o'r tu mewn, gan olygu nad oedd modd i'r staff ei agor o'r tu allan. Roedd hyn ei gwneud hi'n anodd i'r staff fynd i mewn i'r adeilad eto, petai'r drws yn cau y tu ôl iddynt. Gwnaethom godi hyn gyda'r staff ac, ers yr arolygiad, rydym wedi cael tystiolaeth fod atgyweiriadau wedi eu gwneud ar y drws cefn.

Roedd cyfarpar diffodd tân ar gael mewn gwahanol leoliadau yn yr adeilad, a gwelsom fod y cyfarpar hwnnw wedi cael ei wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Gwnaethom edrych ar hyfforddiant diogelwch tân y staff. Roedd hyfforddiant y nyrs asiantaeth a oedd yn gweithio yn y practis a staff y dderbynfa yn gyfredol, ond roedd dyddiad hyfforddiant diogelwch tân rheolwr y practis wedi mynd heibio.

Gwelsom beiriant golchi'n cael ei ddefnyddio yn ardal y staff; fodd bynnag, ni ellid darparu tystiolaeth o ran a oedd hyn yn cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-04 ac a oedd y cwmni cyfleustodau yn ymwybodol o'r defnydd ohono. Roedd yr ardal lle roedd y peiriant golchi'n cael ei gadw yn cael ei rhannu gan y ddau bractis yn yr adeilad, gyda'r ddau hefyd yn defnyddio'r peiriant. Roedd angen i ni gael y dystiolaeth berthnasol ar gyfer hwn.

Gofynnwn i reolwr y practis fynd ar gwrs hyfforddiant diogelwch tân cyn gynted â phosibl, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â hyfforddiant gorfodol.

Mae angen tystiolaeth arnom fod y peiriant golchi'n cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-04 a bod y cwmni cyfleustodau yn ymwybodol o'r defnydd ohono.

Atal a rheoli heintiau

Mae gan y practis gyfleusterau dynodedig ar gyfer dihalogi offer deintyddol, ond ni ddarparwyd archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 ar gyfer y practis i ni ar ddiwrnod yr arolygiad. Ers hynny, rhoddodd staff dystiolaeth i ni eu bod wedi cynnal yr archwiliad ac maent wedi'i anfon at Addysg a Gwella Iechyd Cymru i'w gymeradwyo. Mae angen i staff ddarparu tystiolaeth o gymeradwyaeth AGIC ar ôl ei derbyn. Cafodd y cyfleusterau dihalogi eu rhannu rhwng y ddau bractis yn yr adeilad. Rydym yn argymhell bod y ddau bractis yn cytuno i'r trefniadau ar gyfer cynnal archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, gan rannu'r canfyddiadau a chwblhau unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen.

Gwelsom fod gwastraff clinigol yn cael ei storio a'i wahanu yn seler yr adeilad. Ar ôl cynghori'r staff i gael cynwysyddion gwaredu gwastraff dynodedig ar gyfer y practis, cawsom dystiolaeth fod biniau addas yn cael eu harchebu a'u defnyddio ers dyddiad yr arolygiad.

Ar adeg yr arolygiad, nid oedd un o'r awtoclafau yn gweithio, oherwydd cerdyn SD diffygiol. O ganlyniad, ni allai'r awtoclaf gofnodi pob cylch. Rhoddodd y staff wybod i ni nad oedd hwn yn cael ei ddefnyddio nes iddo gael ei drwsio. Gwnaethom siarad â'r staff yn y ddau bractis am bwysigrwydd trwsio hwn yn fuan.

Rhaid i'r staff ddarparu tystiolaeth o gymeradwyo archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 cyn gynted â bod AGIC yn ei dderbyn.

Rhaid gwneud trefniadau i'r awtoclaf gael ei gynnal a'i gadw, er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio'n iawn.

Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom edrych ar y trefniadau rheoli meddyginiaethau yn y practis ac ni welsom unrhyw bolisi rheoli meddyginiaethau ar waith. Mae angen i'r staff ddatblygu a rhoi polisi rheoli meddyginiaeth ar waith cyn gynted â phosibl.

Roedd y meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel mewn oergell ddynodedig a gwelsom dystiolaeth o restr wirio tymheredd y cael ei chwblhau.

Roedd gan y practis bolisi cynhwysfawr ar waith ar gyfer rheoli argyfyngau meddygol a dadebru. Gwelsom fod hyn yn cael ei adolygu'n flynyddol a'i fod yn seiliedig ar y canllawiau cenedlaethol presennol ar gyfer dadebru.

Roedd yr holl staff sy'n gweithio yn y practis wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-anadlol.

Mae angen i'r staff ddatblygu a rhoi polisi rheoli meddyginiaeth ar waith cyn gynted â phosibl.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant diogelu cyfredol ar gyfer pob aelod o'r staff. Roedd y polisiâu a'r gweithdrefnau diogelu priodol ar waith, a oedd yn cynnwys siart llif gyda manylion cyswllt ar gyfer y tîm diogelu lleol. Roedd ap ffôn Gweithdrefnau Diogelu Cymru hefyd ar gael i reolwr y practis.

Gwnaethom gadarnhau bod rheolwr y practis a'r nyrs asiantaeth a oedd yn bresennol ar ddiwrnod yr arolygiad wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd y cyfleusterau clinigol yn cynnwys yr holl gyfarpar perthnasol. Gwelsom hefyd fod y ddeintyddfa yn drefnus, yn lân ac yn daclus.

Gwnaethom adolygu cofnodion hyfforddiant rheolwr y practis, sef yr unig aelod o staff clinigol a oedd yn gweithio yn y practis. Gwelsom dystiolaeth iddo gael hyfforddiant i sicrhau ei fod yn defnyddio cyfarpar yn ddiogel. Gwnaethom hefyd adolygu cofnodion hyfforddiant y nyrs asiantaeth a oedd yn gweithio ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd y rheini hefyd yn cynnwys yr holl hyfforddiant perthnasol diweddaraf.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yn amlwg bod trefniadau diogel ar waith yn y practis i dderbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Amlinellwyd y trefniadau hyn yn y datganiad

o ddiben, ac yn dilyn sgysiau gyda'r staff, roedd hi'n amlwg eu bod hwythau'n glir am eu cyfrifoldebau yn hyn o beth.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd llen rwber yn cael ei defnyddio pan oedd cleifion yn cael triniaeth sianel y gwreiddyn. Gall hyn arwain at gymhlethdodau fel allsgugno hylif o gleifion neu offer a ddefnyddir yn ystod y driniaeth.

Dylid defnyddio llen rwber pan fydd cleifion yn cael triniaeth sianel y gwreiddyn, lle y bo'n briodol.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Gwnaethom edrych ar yr archwiliadau a gynhaliwyd gan y practis. Roedd gan y practis archwiliadau hylendid dwylo a phelydr-X cyfredol ar waith, ond roedd y practis dal heb gynnal sawl archwiliad eto megis archwiliadau o gardiau cofnodion, rhagnodi gwrthfotigau a rhoi'r gorau i smygu.

Yn ogystal, nid oedd gan y practis bolisi archwilio clinigol ar waith ar adeg yr arolygiad.

Roedd gan y practis bolisi sicrwydd ansawdd cyfredol ar waith. Gwelsom dystiolaeth o ddyddiad adolygu blynyddol ar gyfer hyn hefyd.

Rhaid i'r staff gwblhau archwiliadau o gardiau cofnodion, rhagnodi gwrthfotigau a rhoi'r gorau i smygu ar gyfer y practis cyn gynted â phosibl.

Rhaid i'r staff ddatblygu polisi archwilio clinigol a'i roi ar waith cyn gynted â phosibl.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd polisi diogelu data a pholisi cyfrinachedd staff ar waith yn y practis. Roedd cofnodion cleifion cyfredol yn cael eu storio'n electronig ac yn ddiogel.

Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o 6 o gofnodion cleifion. Roeddent yn cael eu cynnal i safon ddigonol ar y cyfan, ond gwnaethom nodi bod angen gwella rhai meysydd. Roedd diffyg cysondeb o ran cofnodi cydsyniad y cleifion a gwirio hanes meddygol ym mhob apwyntiad. Cafodd hyn ei godi gyda rheolwr y practis a phwysleisiwyd bod rhaid cwblhau'r meysydd hyn ym mhob cofnod wrth symud ymlaen.

Yn ogystal, amlygodd sgysiau â'r staff fod angen gwelliannau o ran darparu manylion triniaeth a chost yn ysgrifenedig i gleifion ar gyfer pob apwyntiad. Gwnaethom hefyd godi'r angen i ddiweddarau Archwiliadau Periodontol Sylfaenol yn rheolaidd. Ar ôl codi'r materion hyn gyda rheolwr y practis, cadarnhaodd y byddai'r camau gweithredu hyn yn cael eu cyflawni wrth symud ymlaen.

Rhaid cael cydsyniad y claf ym mhob apwyntiad a'i gofnodi yng nghofnodion y claf.

Rhaid i'r staff sicrhau y caiff hanes meddygol ei wirio ym mhob apwyntiad.

Dylai'r staff ddarparu copi ysgrifenedig o'r driniaeth a'r gost i'r cleifion bob amser.

Bydd yr Archwiliad Periodontol Sylfaenol yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd a gwelsom ei fod yn ymrwymedig ac yn ymroddedig iawn i'r rôl.

Gwnaethom edrych ar y datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion. Roedd y ddwy ddogfen yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gwnaethom edrych ar bolisiau a gweithdrefnau'r practis, ac roedd pob un ohonynt wedi cael ei adolygu'n ddiweddar. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod sawl un o'r polisiau yn parhau i gyfeirio at enw blaenorol y practis, yn hytrach na Phractis Deintyddol Rowlands. Roedd yr hen enw wedi'i groesi allan ar rai polisiau, yn hytrach na'u diweddarau'n electronig ac roedd dyfrnod gydag enw'r practis blaenorol yn parhau i fod ar bolisiau eraill. Gwnaethom godi hyn gyda rheolwr y practis a chynghorwyd ei fod yn adolygu'r holl bolisiau i sicrhau eu bod ond yn cyfeirio at Bractis Deintyddol Rowlands.

Ar adeg yr arolygiad, nid oedd y practis wedi llunio adroddiad fel yr oedd yn ofynnol o dan Reoliad 16 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Fodd bynnag, rhoddwyd tystiolaeth ers yr arolygiad fod adroddiad Rheoliad 16 wedi'i gwblhau ar gyfer y practis.

Rhaid i'r staff sicrhau y caiff pob polisi ei ddiweddarau i sicrhau eu bod ond yn cyfeirio at Bractis Deintyddol Rowlands.

Y Gweithlu

Roedd y tîm o staff ym Mhractis Deintyddol Rowlands yn cynnwys rheolwr y practis, sef y deintydd arweiniol hefyd, a dau dderbynydd rhan-amser (y ddau ohonynt yn gweithio i'r ddau bractis yn yr adeilad). Cyflogwyd nyrsys deintyddol o asiantaeth.

Disgrifiodd y staff y gwiriadau cyn cyflogi a fyddai'n cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o'r staff. Roedd y rhain yn cynnwys cadarnhau geirdaon a gwneud gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Cadarnhawyd gennym fod gan bob aelod perthnasol o'r staff wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Gwelsom dystiolaeth fod polisi recriwtio cynhwysfawr ar waith a oedd yn amlinellu'r broses a ddefnyddiwyd i recriwtio staff newydd. Rhoddodd rheolwr y practis wybod i ni eu bod yn bwriadu parhau i ddefnyddio nyrsys deintyddol o asiantaeth. Cafodd y broses recriwtio ar gyfer staff y dderbynfa ei thrafod gan y practis arall yn yr adeilad.

Rhoddodd rheolwr y practis ffeiliau'r staff i ni ar eu cyfer nhw eu hunain a staff y dderbynfa. Rhoddwyd hefyd y ffeil ar gyfer y nyrs asiantaeth a oedd yn gweithio'r diwrnod hwnnw. Gwelsom fod gan y nyrs asiantaeth frechlyn Hepatitis B cyfredol, ond nid oedd un rheolwr y practis yn gyfredol. Ers yr arolygiad, rydym wedi cael cadarnhad bod gweddill y staff wedi trefnu pigiad atgyfnerthu a byddant yn ei gael yn fuan. Roedd gan yr holl staff dystysgrifau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyfredol ar waith.

Gwelsom dystiolaeth fod polisi chwythu'r chwiban cynhwysfawr ar waith.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
<p>Tynnodd ein taith o'r practis sylw at risgiau yn seler yr adeilad. Roedd cofnodion y cleifion ar gyfer y ddau bractis yn cael eu storio yn y seler, ond roedd rhai o'r rhain yn cael eu storio'n agos at y ddau gywasgydd.</p>	<p>Gwnaethom nodi bod agosrwydd y cofnodion papur at y cywasgydd yn peri risg o dân.</p>	<p>Gwnaethom godi hyn fel pryder uniongyrchol, yr oedd angen i'r ddau bractis yn yr adeilad fynd i'r afael â nhw.</p>	<p>Yn syth ar ôl ein hymweliad, gwelsom dystiolaeth fod y cofnodion wedi'u symud pellter derbynol i ffwrdd o'r cywasgwyr. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod cypyrddau atal tân wedi'u harchebu i storio cofnodion papur wrth symud ymlaen</p>

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Rowlands

Dyddiad yr arolygiad: 23/03/2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd angen cynllun gwella ar unwaith.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Rowlands

Dyddiad yr arolygiad: 23/03/2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Gofynnwn i reolwr y practis fynd ar gwrs hyfforddiant diogelwch tân cyn gynted â phosibl, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â hyfforddiant gorfodol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 22 (4) (c)	Wedi archebu lle ar gwrs ar unwaith i sicrhau cydymffurfiaeth.	P.W.Rowlands	Cwblhawyd ar 10.05.2023 Tystysgrif i'w hanfon i AGIC ar 10.05.2023
Mae angen tystiolaeth arnom fod y peiriant golchi'n cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-04 a bod y cwmni cyfleustodau yn ymwybodol o'r defnydd ohono.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 13 (2) (a)	Cadarnhaodd plymwr fod falf nad yw'n gwrthdynnu wedi'i ffitio a'i fod yn cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-04. Rhoddwyd gwybod i'r cwmni cyfleustodau fod peiriant golchi wedi'i ffitio ac yn cael ei ddefnyddio.	P.W.Rowlands	Derbyniwyd llythyr o gadarnhad gan y plymwr ar 07.06.2023 a chyflenwyd tystiolaeth ffotograffig. Anfonwyd cadarnhad i AGIC cyn 02.06.2023 Yn aros am ymateb gan gwmni cyfleustodau - fe'i

				disgwylir o fewn 1 mis o 12.06.2023
Rhaid i'r staff ddarparu tystiolaeth o gymeradwyo archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 cyn gynted â bod AaGIC yn ei dderbyn.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 13 (6) (a)	Cysylltwyd ag AGIC ar 23.03.2023 i gychwyn yr archwiliad.	P.W.Rowlands	Anfonwyd cynllun gwella archwiliadau i AGIC ar 25.04.2023 ac fe'i cymeradwywyd gan AGIC ar 28.04.2023 Anfonwyd cymeradwyaeth i AGIC cyn 28.04.2023
Rhaid gwneud trefniadau i'r awtoclaf gael ei gynnal a'i gadw, er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio'n iawn.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 13 (2) (a)	Mynychodd peiriannydd y practis ar 31.03.2023 i ymchwilio i nam cofnodi data.	P.W.Rowlands	Lluniwyd adroddiad taflen waith gan y peiriannydd ar 31.03.2023 yn cadarnhau cerdyn SD diffygiol. Newidiwyd y cerdyn SD. Mae dogfennaeth ar gael yn y practis.
Mae angen i'r staff ddatblygu a rhoi polisi rheoli meddyginiaeth ar waith cyn gynted â phosibl.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 8 (1) (l)	Cafodd y polisi rheoli meddyginiaethau ei ddiweddarau a'i roi ar waith yn y practis.	P.W.Rowlands	Cwblhawyd ar 08.06.2023 - mae dogfennaeth ar gael yn y practis.
Dylid defnyddio llen rwber pan fydd cleifion yn cael triniaeth	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat	Byddwn yn ymgorffori defnydd o len rwber yn y	P.W.Rowlands	O fewn 3 mis.

sianel y gwreiddyn, lle y bo'n briodol.	(Cymru) 2017 - Rheoliad 13 (1) (b)	practis ac yn mynd ar gwrs gloywi yn y pwnc hwn.		
Rhaid i'r staff gwblhau archwiliadau o gardiau cofnodion, rhagnodi gwrthfotigau a rhoi'r gorau i smygu ar gyfer y practis cyn gynted â phosibl.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 16 (1) (a)	Cychwynwyd archwiliadau gan ddefnyddio AGIC a Chymdeithas Ddeintyddol Prydain.	P.W.Rowlands	O fewn 3 mis.
Rhaid i'r staff ddatblygu polisi archwilio clinigol a'i roi ar waith cyn gynted â phosibl.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 8 (1) (n)	Sefydlwyd y Polisi Archwilio Clinigol ac fe'i rhoddwyd ar waith	P.W.Rowlands	Cwblhawyd ar 08.06.2023 Mae dogfennaeth ar gael yn y practis.
Rhaid cael cydsyniad y claf ym mhob apwyntiad a'i gofnodi yng nghofnodion y claf.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 13 (9), (d) a Rheoliad 20	Mae hyn wedi'i nodi a'i ymgorffori yn apwyntiadau a chofnodion y cleifion.	P.W.Rowlands	Wedi'i gychwyn yn syth ac ar waith
Rhaid i'r staff sicrhau y caiff hanes meddygol ei wirio ym mhob apwyntiad.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 20	Mae hyn wedi'i nodi a'i ymgorffori yn apwyntiadau a chofnodion y cleifion.	P.W.Rowlands	Wedi'i gychwyn yn syth ac ar waith
Dylai'r staff ddarparu copi ysgrifenedig o'r driniaeth a'r gost i'r cleifion bob amser.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 20	Mae cynlluniau trin yn cael eu creu trwy'r feddalwedd ddeintyddol yn y practis.	P.W.Rowlands	Ar waith.
Bydd yr Archwiliad Periodontol Sylfaenol yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 20	Mae hyn wedi'i nodi a'i ymgorffori yn apwyntiadau a chofnodion y cleifion.	P.W.Rowlands	Wedi'i gychwyn yn syth ac ar waith

Rhaid i'r staff sicrhau y caiff yr holl bolisiau eu diweddarau i sicrhau eu bod ond yn cyfeirio at Bractis Deintyddol Rowlands.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 8	Mae polisiau wrthi'n cael eu diweddarau i gydymffurfio â Phractis Deintyddol Rowlands.	P.W.Rowlands	12 mis
---	--	--	--------------	--------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Peter William Rowlands

Swydd: Deintydd/Rheolwr y Practis

Dyddiad: 14.06.2023